

Trefn Dyrannu Tai Gofal Ychwanegol Ionawr 2020

Trefn Dyrannu Tai Gofal Ychwanegol Ionawr 2020

Cynnwys

1.0	YMGEISIO	2
2.0	DYRANNU	2
3.0	PANEL SGRINIO	3
4.0	PANEL DYRANIADAU	5
5.0	APELIADAU	6
6.0	CYFNEWIDIADAU CYDFUDDIANNOL	7
7.0	OLYNIAETH	7
	Atodiad 1 - Meini Prawf Cymhwyso Gofal Ychwanegol	8
	Cam 1: Sgrinio Cychwynnol	8
	Cam 2: Penderfyniad y Panel Sgrinio	9
	Cam 3: Penderfyniad y Panel Dyraniadau	9
	Atodiad 2 – Panel Cynlluniau Gofal Ychwanegol Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a Chyngor Sir Ddinbych - TAFLEN ADRODD ASESIAU TENANTIAID	10
	Atodiad 3 – Y Broses Ymgeisio ar gyfer Gofal Ychwanegol	11

Trefn Dyrannu Tai Gofal Ychwanegol Ionawr 2020

1.0 YMGEISIO

I wneud cais am denantiaeth mewn cynllun Gofal Ychwanegol, rhaid cwblhau ffurflen gais tai gofal ychwanegol a'i hanfon at Landlord Cymdeithasol Cofrestredig perthnasol y cynllun tai gofal ychwanegol a nodir. Yna, bydd yr holl geisiadau yn cael eu rhoi ar restr aros a'u hanfon ymlaen at y Rheolwr Cymdeithas Tai yn y cynllun hwnnw, a fydd yn eu trefnu yn ôl eu dyddiad.

2.0 DYRANNU

Mae cynlluniau Gofal Ychwanegol Sir Ddinbych wedi'u datblygu mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ddinbych (CSDd) a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC). Bydd CSDd a'r LCC perthnasol yn ystyried ymgeiswyr sydd wedi cael eu hasesu a'u pennu'n addas ar gyfer Gofal Ychwanegol. Bydd y ceisiadau hyn yn cael eu cyflwyno i'r Paneli Sgrinio a Dyraniadau.

Fel nad yw tenantiaid presennol dan anfantais wrth gael mynediad at lety Gofal Ychwanegol, bydd hyd at 10% o osodiadau net y flwyddyn yn cael eu dyrannu i geisiadau trosglwyddo, cyn belled â'u bod yn bodloni'r meini prawf cymhwyso a dyraniadau Gofal Ychwanegol.

Pan fo dau ymgeisydd yn 'gyfartal' o ran eu hanghenion asesedig a'u hangen am gymorth yn ymwneud â thai, gwneir penderfyniad yn seiliedig ar ddyddiad cyflwyno'r ceisiadau a pha gais gafodd ei gyflwyno'n gyntaf. Os nad ellir dod i gytundeb, dylid cyfeirio'r mater at Bennaeth Gofal Ychwanegol y LCC perthnasol a Rheolwr Tîm, Gwasanaethau Darparwyr CSDd er mwyn iddynt allu ei ddatrys gyda'i gilydd. Os yw'r rhestr aros yn llawn, bydd y LCC yn adolygu'r dyraniadau a'r meini prawf cymhwyso, neu i wneud dyraniadau i ymgeiswyr cymwys a drosglwyddir. Bydd y dyraniadau a'r meini prawf cymhwyso yn cael eu hadolygu gan y LCC a CSDd bob blwyddyn.

Trefn Dyrannu Tai Gofal Ychwanegol Ionawr 2020

3.0 PANEL SGRINIO

Bydd y Panel Sgrinio yn cwrdd oddeutu pob 6 wythnos. Bydd yr holl atgyfeiriadau yn cael eu trafod yn ystod cyfarfod y Panel Sgrinio i nodi pa ymgeiswyr sy'n gymwys i gael Gofal Ychwanegol.

Bydd y Panel Sgrinio aml-asiantaeth yn ystyried ceisiadau newydd i'r cynllun Gofal Ychwanegol ac ymgeiswyr sydd wedi cael asesiadau llawn. Bydd y Panel Sgrinio'n cynnwys yr unigolion canlynol:

- Rheolwr Cymdeithas Tai
- Rheolwr Gofal Ychwanegol a Chymorth
- Cynrychiolydd Tîm Rheoli Ardal
- Cynrychiolydd Iechyd
- Swyddog Tai LCC

Gellir hefyd gwahodd gweithwyr proffesiynol neu gynrychiolwyr eraill i gyfarfodydd y Panel Dyraniadau e.e. Gweithwyr Cymdeithasol, Nyrsys Seiciatrig Cymdeithasol ac ati, fel sy'n briodol.

Ni fydd cyfarfod y Panel Sgrinio yn cael ei gynnal oni bai bod y Rheolwr Cymdeithas Tai a'r Rheolwr Gofal Ychwanegol a Chymorth, neu eu cynrychiolwyr, yn bresennol. Yn ogystal, mae'n rhaid i'r Rheolwr Tîm Ardal neu gynrychiolydd fod yn bresennol hefyd. Gwneir pob ymdrech i gynnwys cynrychiolydd Iechyd ar y panel, er hynny, mewn amgylchiadau eithriadol, gall y Rheolwr Cymdeithas Tai a'r Rheolwr Gofal Ychwanegol a Chymorth ofyn i staff y gwasanaeth Nyrsys Ardal gyflwyno sylwadau ar anghenion nyrsio ymgeiswyr ar wahân. Gwneir hyn cyn cyfarfod y Panel Dyraniadau.

Bydd y Panel Sgrinio yn ystyried:

- A yw'r wybodaeth a gedwir am bob ymgeisydd yn gywir a chyfredol?
- All Gofal Ychwanegol ddiwallu anghenion asesedig yr ymgeisydd?

Trefn Dyrannu Tai Gofal Ychwanegol Ionawr 2020

Bydd y Rheolwr Cymdeithas Tai a'r Rheolwr Gofal Ychwanegol a Chymorth yn gyfrifol am sicrhau bod cofnodion o'r cyfarfod yn cael eu cadw, er mwyn cofnodi presenoldeb a'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud yng nghyfarfodydd y Panel Sgrinio. Bydd hyn yn cynnwys a yw CSDd neu'r LCC wedi enwebu pob ymgeisydd. Bydd copi o'r cofnodion ar gael i bob aelod o'r panel a bydd yn cael ei gadw ar ffeil.

Bydd Tabl Asesiadau Tenantiaid (Atodiad 2) yn cael ei gwblhau i gofnodi'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan y panel. Bydd y cofnod gwreiddiol yn cael ei gadw gyda chofnodion y cyfarfod a chopi ynghlwm wrth pob ffurflen gais sydd wedi cael ei hystyried.

Bydd ceisiadau yn cael eu trafod i bennu a ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwyso – Cam 1 a Cham 2. Bydd y ceisiadau sy'n bodloni'r meini prawf – Cam 1 yn cael eu rhoi ar restr aros gychwynnol. Bydd yr ymgeiswyr hynny sy'n gwneud cais at LCC penodol ac nad ydynt yn bodloni Cam 1 yn cael gwybod yn ysgrifenedig gan y LCC hwnnw.

Pan fo ymgeiswyr yn bodloni'r meini prawf – Cam 1, bydd y Rheolwr Gofal Ychwanegol a Chymorth yn cysylltu â Rheolwr Tîm Un Pwynt Mynediad Cyngor Sir Ddinbych. Bydd enwau a chyfeiriadau ymgeiswyr yn cael eu casglu gan y Rheolwr Gofal Ychwanegol a Chymorth a'u hanfon at y Rheolwr Un Pwynt Mynediad a fydd yn cysylltu â'r timau perthnasol i gydlynu neu ddiweddarau Dogfennau Asesiadau a Chynlluniau Gofal a Chymorth ar gyfer pob ymgeisydd. Efallai y bydd angen cynnal asesiadau risg lle bo hynny'n berthnasol. Fel rhan o'r asesiad, bydd Gweithwyr Cymdeithasol dynodedig hefyd yn cael Asesiad Nyrsio Ardal ac unrhyw weithiwr proffesiynol arall sydd wedi bod yn rhan o'r asesiad, megis Therapydd Galwedigaethol, Nyrs Seiciatrig Gymunedol, Therapydd Lleferydd ac ati ar gyfer pob ymgeisydd, lle nodir hyn yn y Broses Asesu Unedig. Dylid cwblhau asesiadau o fewn 28 diwrnod er mwyn osgoi oedi diangen.

Bydd y Rheolwr Cymdeithas Tai a'r Rheolwr Gofal Ychwanegol a Chymorth yn ymweld â phob ymgeisydd. Gwneir hyn i nodi anghenion gofal a thair ymgeisydd, i asesu sut y gellir diwallu anghenion asesedig yr ymgeisydd yn briodol o fewn y cynllun ac i sicrhau bod yr ymgeisydd yn dymuno cael ei ystyried ar gyfer lle gwag.

Ar ôl cwblhau'r ymweliad, bydd y cais yn cael ei drafod yng nghyfarfod nesaf y Panel Sgrinio i benderfynu a yw'r ymgeisydd yn bodloni Cam 2 y meini prawf. Bydd y LCC perthnasol yn

Trefn Dyrannu Tai Gofal Ychwanegol Ionawr 2020

ysgrifennu at y rhai hynny sydd wedi bodloni'r meini prawf er mwyn eu gwahodd i ymweld â'r cynllun.

Bydd y rhai hynny nad ydynt yn gymwys am Ofal Ychwanegol yn cael eu rhoi ar restr aros. Bydd y LCC perthnasol yn ysgrifennu at yr ymgeiswyr hyn i roi gwybod iddynt nad yw eu cais yn cael ei ystyried ar gyfer lleoedd gwag ac y dylent gysylltu os yw eu hamgylchiadau'n newid. Lle mae ymgeisydd wedi cysylltu â'r LCC gyda newid perthnasol mewn amgylchiadau, bydd ei gais yn cael ei ystyried fel cais newydd.

Bydd y LCC yn ysgrifennu at ymgeiswyr bob chwe mis i sicrhau eu bod yn dal eisiau cael eu hystyried am le gwag ac i ofyn am unrhyw wybodaeth berthnasol os yw amgylchiadau'r ymgeisydd wedi newid.

4.0 PANEL DYRANIADAU

Bydd aelodau'r Panel Dyraniadau'r un fath â'r Panel Sgrinio. Bydd y panel yn cwrdd bob tro y mae llety yn wag neu pan y rhagwelir y bydd llety yn wag yn y dyfodol agos. Bydd cyfarfodydd yn cael eu trefnu gan y Rheolwr Cymdeithas Tai a'u cadeirio gan Uwch Gynrychiolydd o'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Er mwyn i gyfarfod fynd rhagddo, rhaid sicrhau bod yr ymgeiswyr wedi cael eu hasesu ac yn aros am le gwag.

Mae'n rhaid i'r Panel Dyraniadau ystyried yr egwyddor o gynnal cymuned gymysg wrth wneud penderfyniadau am geisiadau. Bydd y Rheolwr Cymdeithas Tai a'r Rheolwr Gofal Ychwanegol a Chymorth yn dod â gwybodaeth i'r cyfarfod ynghylch y cydbwysedd presennol o fewn y cynllun ac yn ystyried:

- Y proffil presennol o anghenion tenantiaid a dibyniaeth o fewn y cynllun Gofal Ychwanegol.
- A yw'r ymgeisydd yn bodloni'r meini prawf cymhwyso ar gyfer Gofal Ychwanegol?
- A oes brys mawr o ran yr angen i symud i Ofal Ychwanegol o ran colli annibyniaeth?
- A yw'r cynllun yn gallu diwallu anghenion yr ymgeisydd ar hyn o bryd?
- A yw'r ymgeisydd yn bodloni'r gofyn i gydbwyso'r gymuned yn y cynllun Gofal Ychwanegol?
- Lleoliad yr eiddo

Trefn Dyrannu Tai Gofal Ychwanegol Ionawr 2020

Bydd y Panel Dyraniadau yn penderfynu i ba ymgeisydd / ymgeiswyr y dylid cynnig tenantiaeth iddo / iddynt ac yn llunio rhestr wrth gefn rhag ofn i gynigion gael eu gwrthod neu fod rhagor o leoedd gwag ar gael, a gedwir gan y Rheolwr Cymdeithas Tai a'r Rheolwr Gofal Ychwanegol a Chymorth. Os nad ellir dod i gytundeb, dylid cyfeirio'r penderfyniad at Bennaeth Gofal Ychwanegol y LCC perthnasol a Rheolwr Tîm, Gwasanaethau Darparwyr CSDd.

Bydd y Rheolwr Cymdeithas Tai a'r Rheolwr Gofal Ychwanegol a Chymorth yn gyfrifol am sicrhau bod cofnodion o'r cyfarfod yn cael eu cadw, er mwyn cofnodi presenoldeb a'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud yng nghyfarfodydd y Panel Dyraniadau. Bydd hyn yn cynnwys a yw CSDd neu'r LCC wedi enwebu pob ymgeisydd. Bydd copi o'r cofnodion ar gael i bob aelod o'r panel a bydd yn cael ei gadw ar ffeil.

Bydd y LCC perthnasol yn hysbysu ymgeiswyr yn ysgrifenedig os nad ydynt yn bodloni'r meini prawf cymhwyso gan roi rhesymau dros y penderfyniad hwn a chyingor ar sut i ail-ymgeisio os yw eu hamgylchiadau'n newid. Bydd yr ymgeisydd yn cael gwybod am ei hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad a'r broses ar gyfer gwneud hynny. Bydd y Rheolwr Cymdeithas Tai a'r Rheolwr Gofal Ychwanegol a Chymorth yn diwygio'r rhestr aros yn unol â hynny.

Bydd tenantiaid arfaethedig yn cael gwahoddiad i ymweld â'r cynllun Gofal Ychwanegol ac yn cael cyfle i gwrdd â thenantiaid presennol.

5.0 APELIADAU

Gellir defnyddio'r broses apelïadau pan fo ymgeisydd yn anghytuno â phenderfyniad. Gan y bydd y LCC wedi cynnig tenantiaeth yn seiliedig ar y penderfyniadau a wnaed gan y Panel Dyraniadau, gall apêl ond ystyried addasrwydd ymgeisydd ar gyfer lleoedd gwag yn y dyfodol. Mae'r broses apelïadau fel a ganlyn:

- Bydd yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd yn cyflwyno'n ysgrifenedig y rhesymau pam eu bod yn anghytuno â'r penderfyniad o fewn 14 diwrnod o dderbyn y penderfyniad yn ysgrifenedig.
- Bydd yr apêl yn cael ei ystyried gan y Pennaeth Gwasanaeth yng Nghyngor Sir Ddinbych.
- Bydd cyfarfod panel yn cael ei gynnal os oes angen.

Trefn Dyrannu Tai Gofal Ychwanegol Ionawr 2020

- Bydd penderfyniad yn cael ei wneud.
- Bydd yr unigolyn sy'n apelio yn cael ei hysbysu o'r penderfyniad yn ysgrifenedig.
- Gellir cyflwyno cwyn yn uniongyrchol i'r LCC neu i Gyngor Sir Ddinbych yn defnyddio gweithdrefnau sefydledig. Bydd y Rheolwr Cymdeithas Tai neu'r Rheolwr Gofal Ychwanegol a Chymorth yn gallu cynghori ymgeiswyr ynglŷn ag at bwy i gyfeirio eu cwyn. Bydd CSDd a'r LCC perthnasol yn ymgynghori â'i gilydd fel sy'n briodol ynghylch y cwynion sydd wedi cael eu cyflwyno.

6.0 CYFNEWIDIADAU CYDFUDDIANNOL

Oherwydd darpariaethau Deddf Tai 1988, mae gan Denantiaid Sicr hawl i gyfnewid eu tenantiaethau drwy aseiniad, gyda chaniatâd eu Landlord. Oherwydd natur Gofal Ychwanegol, bydd cymeradwyaeth ond yn cael ei rhoi pan fo'r aseiniad yn bodloni Meini Prawf Cymhwyso'r cynllun. Mae hyn yn amlwg yn hanfodol i gynnal ethos y cynllun ac i ddiogelu tenantiaid a allai fod yn agored i niwed.

7.0 OLYNIAETH

Mae'r Ddeddf Tai 1988 hefyd yn rhoi hawliau Olyniaeth i unigolion penodol wedi marwolaeth y Tenant Sicr. Felly gellir trosglwyddo tenantiaeth mewn Cynllun Gofal Ychwanegol i unigolyn â'r hawl olynu'r denantiaeth. Pan nad yw unigolyn yn bodloni meini prawf cymhwyso'r cynllun, bydd y Gymdeithas yn cynnig llety arall i'r unigolyn hwnnw yn rhywle arall, er mwyn cynnal y cydbwysedd priodol o anghenion gofal o fewn y cynllun Gofal Ychwanegol.

Trefn Dyrannu Tai Gofal Ychwanegol Ionawr 2020

Atodiad 1 - Meini Prawf Cymhwyso Gofal Ychwanegol

Cam 1: Sgrinio Cychwynnol

Fel rheol, fe ddylai ymgeiswyr fod yn 60 mlwydd oed neu'n hŷn a rhoddir blaenoriaeth i ymgeiswyr o Ardal Cyngor Sir Ddinbych. Mae hyn yn berthnasol i'r ddau unigolyn pan fo cais ar y cyd yn cael ei gyflwyno ac i bobl a fydd yn byw gyda'r prif ymgeisydd yn y Cynllun Gofal Ychwanegol.

Bydd ymgeiswyr wedi cael eu hasesu / adolygu gan swyddog CSDd o dan feini prawf asesu Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) a'u pennu'n unigolion na allant barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartref presennol neu eu bod yn debygol o fethu gwneud hynny yn y dyfodol.

Rhaid i ymgeiswyr fod yn gymwys i'w cynnwys yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r LCC perthnasol. Ni chaniateir i'r unigolion canlynol ymgeisio:

- Unigolion sy'n amodol ar reolaeth fewnfudo fel y diffinnir o dan y Ddeddf Mewnfudo a Lloches 1996. Mae unigolion heb Statws Lloches a heb ganiatâd i aros yn destun Rheolaeth y Swyddfa Gartref, ac nid oes ganddynt hawl i dai cymdeithasol.
- Ymgeiswyr neu aelodau o'u cartref sydd, yn y gorffennol, wedi ymddwyn mewn modd annerbyniol, ac yn parhau i wneud hynny ar adeg cwblhau'r ffurflen gais, i'r fath raddau eu bod yn anaddas i fod yn denant o'r cynlluniau. Ystyrir pob achos ar ei rinweddau ei hun, ac wrth wneud penderfyniad, bydd y Gymdeithas yn ystyried gohirio'r cais. Mae'r diffiniad statudol o 'ymddygiad annerbyniol' fel y diffinnir yn y Ddeddf Tai 1996 S160A (8) yn rhannu i dri chwestiwn y mae'n rhaid i ni fynd i'r afael â nhw yn olynol:
 - a. A yw un, neu fwy nag un, o'r seiliau perthnasol dros feddiant yn cynnwys amgylchiadau'r ymddygiad blaenorol?
 - b. Os felly, a fyddai llys yn ei ystyried yn rhesymol i wneud gorchymyn am feddiant o dan Ddeddfau Tai 1985/1988? Ar sail yr ymddygiad hwnnw; ac
 - c. Os felly, a fyddai llys yn gwneud gorchymyn am feddiant yn gyfan gwbl?

Trefn Dyrannu Tai Gofal Ychwanegol Ionawr 2020

Rhaid ateb pob cwestiwn ag 'ydi' neu 'byddai' er mwyn ystyried yr ymgeisydd yn anghymwys ar gyfer tai. Mae ymddygiad o'r fath yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, ôl-ddyledion rhent, niwsans, defnyddio'r tŷ annedd neu ganiatáu iddo gael ei ddefnyddio at ddibenion anfoesol neu anghyfreithiol, bygythiadau o drais, cyflwr y tŷ annedd, gwneud datganiadau ffug. Bydd LCC yn hysbysu ymgeiswyr y maent yn eu hystyried yn anghymwys yn ysgrifenedig, gan esbonio eu penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad.

Gall ymgeiswyr anghymwys wneud cais am adolygiad o fewn 10 diwrnod gwaith o'r dyddiad hysbysu. Cynhelir yr adolygiad gan Gyngor Sir Ddinbych. Bydd yr ymgeisydd yn cael ei hysbysu'n ysgrifenedig o benderfyniad yr adolygiad. Gall ymgeisydd ailymgeisio am lety ar unrhyw adeg a darparu tystiolaeth bod ei ymddygiad wedi newid.

Cam 2: Penderfyniad y Panel Sgrinio

Rhaid i ymgeiswyr gael eu hasesu gan Swyddog CSDd a bod â lefel o angen sy'n ddigon difrifol i fod angen tai Gofal Ychwanegol.

Cam 3: Penderfyniad y Panel Dyraniadau

Mae'n rhaid i ymgeiswyr fod mewn perygl sylweddol o golli eu gallu i fyw'n annibynnol.

Rhaid i ymgeiswyr fod yn frwdfrydig dros fwynhau'r manteision o gael eu llety annibynnol eu hunain gyda chymorth priodol wedi'i asesu a'i nodi ar eu cynllun gofal.

Mae angen i ymgeiswyr allu cael mynediad at rannau eraill o'r cynllun Gofal Ychwanegol gyda chymorth fel y bo'n briodol.

Ni fydd ymgeiswyr yn cael eu hystyried os oes ganddynt gyflwr neu ymddygiad wedi'i nodi a allai beri risg i'w hunain, tenantiaid eraill neu staff (efallai y bydd angen adroddiad arbenigol mewn rhai achosion).

Bydd ymgeiswyr yn fodlon cael eu hasesu'n ariannol ar gyfer unrhyw wasanaethau sy'n cael eu trefnu gan Wasanaethau Cymorth Cymunedol, a'u gallu i dalu ffioedd llety'r cynllun.

Bydd ymgeiswyr yn fodlon talu rhent, taliadau gwasanaeth a chymorth y llety, gyda chymorth Budd-Dal Tai os oes angen.

Trefn Dyrannu Tai Gofal Ychwanegol Ionawr 2020

Atodiad 2 – Panel Cynlluniau Gofal Ychwanegol Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a Chyngor Sir Ddinbych - TAFLEN ADRODD ASESIADAU TENANTIAID

Rhif yr Achos	Enw a Chyfeiriad	Anghenion Gofal	Meini Prawf Cymhwys	Materion Tai	Materion Eraill	Risgiau	Canlyniad

Trefn Dyrannu Tai Gofal Ychwanegol Ionawr 2020

Atodiad 3 – Y Broses Ymgeisio ar gyfer Gofal Ychwanegol

